# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Hydref 2020

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Ar 5 Hydref 2020, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y y cyhoedd o eitem 1**

## 1 Awdurdod Cyllid Cymru: cyfrifon blynyddol 2019 i 2020 - Briff technegol

(14.30-15.10)

Dyfed Alsop, Prif Weithredwr, Awdurdod Cyllid Cymru

Rebecca Godfrey, Prif Swyddog Strategaeth, Awdurdod Cyllid Cymru

Sam Cairns, Prif Swyddog Gweithredu, Awdurdod Cyllid Cymru

Adam Al-Nuaimi, Pennaeth Dadansoddi Data, Awdurdod Cyllid Cymru

**Egwyl (15.10-15.20)**

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 3 Papur(au) i'w nodi

(15.20) (Tudalennau 1 - 3)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020

3.1 **PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – 2 Hydref 2020**

(Tudalen 4)

## 4 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 3

(15.20-16.00) (Tudalennau 5 - 19)

Dr Ed Poole, Uwch Ddarlithydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru

Guto Ifan, Cymrawd Ymchwil, Canolfan Llywodraethiant Cymru

**Papurau ategol:**

Papur briffio

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22: Trafod yr adroddiad drafft

(16.00-16.20)

**Papurau ategol:**

FIN(5)-19-20 P1 - Adroddiad drafft

## 7 Trafod y wybodaeth a ddarparwyd gan Gyllid a Thollau EM mewn perthynas â Chyfraddau Treth Incwm Cymru

(16.20-16.30)

**Papurau ategol:**

Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol, Strategaeth Cwsmeriaid a Dylunio Trethi, Cyllid a Thollau EM - 29 Medi 2020

Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) gan Gyllid a Thollau EM (Saesneg yn unig)

Adroddiad Blynyddol CThEM 2020 ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru

## 8 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22: Trafod y dull gweithredu

(16.30-16.40) (Tudalennau 20 - 23)

**Papurau ategol:**

FIN(5)-19-20 P2 - Papur ar y broses o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

## 9 Trafod y Bil Marchnad Fewnol

(16.40-16.50) (Tudalennau 24 - 39)

**Papurau ategol:**

FIN(5)19-20 P3 - Y Gwasanaeth Ymchwil: Bil Marchnad Fewnol y DU a'r Goblygiadau i Gyllid yr UE

FIN(5)19-20 P4 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad: Craffu ar drefniadau ymadael â'r UE - 7 Hydref 2020

FIN(5)19-20 P5 - Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Craffu ar drefniadau ymadael â'r UE - 24 Medi 2020

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Hydref 2020

Amser: 14.30 - 16.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6556

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS |
| Tystion: | Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>David Meaden, Public Services Ombudsman for Wales Office<br>Chris Vinestock, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Suzy Davies AS, Comisiynydd<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 FIN(5)-18-20 PTN 1 - Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 - 28 Medi 2020**

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - 21 Medi 2020**

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Cynllun Gwaith Polisi Treth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 - 29 Medi 2020**

**2.4 PTN 4 - Llythyr gan Archwilio Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau - Cymhwysedd Deddfwriaethol - 30 Medi 2020**

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22 Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Suzy Davies AS, sef y Comisiynydd dros y Gyllideb a Llywodraethiant; Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd; a Nia Morgan, y Cyfarwyddwr Cyllid ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22.

3.2 Cytunodd y Comisiwn i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth am ei strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu; a rhoi rhagor o fanylion am ailstrwythuro swyddi penodol o fewn y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu.

## 4 Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella; a David Meaden, Cyfrifydd Ariannol Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a dechrau cyfarfod y Pwyllgor ar 12 Hydref.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22 Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/00280/20

Llŷr Gruffydd MS / AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid / Chair of the Finance Committee
Senedd Cymru / Welsh Parliament
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

2 Hydref 2020

Annwyl Llŷr

Diolch ichi am eich llythyr 21 Medi ynghylch Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (y Bil) a chostau a manteision posibl Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Yn fy llythyr 27 Gorffennaf nodais y byddai'r adroddiad a rennais gyda'r Pwyllgor Cyllid yn llywio datblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) a fyddai'n cyd-fynd ag unrhyw reoliadau olynol yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Rydym wrthi'n paratoi rheoliadau drafft i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig cyntaf yng Nghymru ac, yn ddarostyngedig i hynt y Bil yn y Senedd, byddwn yn ymgynghori ar y rhain cyn gynted â phosibl. Fel rhan o hyn rydym yn paratoi RIA manwl i asesu costau a manteision posibl sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn.

Rwyf yn credu ei bod yn fwy priodol cynnwys y costau a manteision yn yr RIA sy'n ategu'r rheoliadau hyn yn hytrach na'r Bil ei hun gan mai'r rheoliadau a fydd yn darparu'r manylion am sut y bydd pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn edrych ac a fydd yn sail i'r RIA wneud rhagdybiaethau cytbwys priodol. Nid yw'r Bil ond yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud rheoliadau o'r fath.

Byddwn yn falch o rannu copi o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau gyda'r Pwyllgor Cyllid cyn gynted ag y byddaf yn gallu.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

7 Hydref 2020

Annwyl Llyr

**Craffu ar y trefniadau ar gyfer ymadael â'r UE**

Diolch i chi am eich llythyr ar 24 Medi 2020 yn gofyn a fyddai'n briodol gweithio gyda'n gilydd ar y trefniadau ymadael â'r UE.

Yn dilyn sesiwn graffu gychwynnol ar 21 Medi, rydym wedi trefnu i glywed rhagor o dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AS, ar Fil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU am 10.00am ar 2 Tachwedd 2020.

O ystyried bod cymalau 46 a 47 y Bil yn ymwneud â phwerau ar gyfer Gweinidogion y DU a allai o bosibl effeithio ar setliad ariannol Cymru ac, yn unol â hynny, pa mor effeithiol y mae datganoli'n gweithredu, hoffem eich gwahodd chi ac aelod o'ch Pwyllgor i ddod i'n sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 2 Tachwedd. Rydym hefyd yn estyn gwahoddiad i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Os byddwch yn cytuno, gall ein Clercod perthnasol wneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

---

24 Medi 2020

Annwyl David a Mick,

**Craffu ar drefniadau ymadael â'r UE**

Ymhellach i'r ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd dyddiedig 20 Gorffennaf, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn trafod sut y bydd y newidiadau sylweddol a ddaw yn sgil Brexit yn effeithio ar y cyllid sydd ar gael yng Nghymru, a'n rôl o ran craffu ar y newidiadau hyn.

Mae'n amlwg y bydd newidiadau i raglenni cyllid, y cynigion ynghylch y farchnad fewnol a deddfwriaeth ymadael â'r UE yn effeithio ar gylch gwaith pob un o'n Pwyllgorau, ac rwyf am ystyried sut y gall gwaith y Pwyllgor Cyllid ychwanegu gwerth i'r gwaith sydd gennych chi ar y gweill ar hyn o bryd. Yn ogystal, gallai fod yn ddefnyddiol inni ystyried a allai gwaith craffu ar y cyd fod yn ddefnydd effeithiol o amser y Pwyllgorau a'r Gweinidogion.

Byddwn yn croesawu cael eich barn ynghylch a fyddai gwaith ar cyd yn ddefnyddiol ac ynghylch unrhyw ffyrdd eraill y gall gwaith y Pwyllgor Cyllid ategu gwaith eich Pwyllgorau.

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565